CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir Cyfarfod o'r Cyngor yn Neuadd Llanfachreth
Nos Fawrth, Tachwedd 17, 2026 am 7:30 o'r gloch.

AGENDA

www.cyngorllanfachreth.cymru

1. Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau:

3. Datgan diddordeb.

Roedd Robin, Emlyn a Karen yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio. Eitem 7.a.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 20, 2026

5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 20, 2026

Eitem 10.b. Cytunodd (21/10/2026) Delyth i ddelio gyda'r ddau bwnc yn yr eitem. Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â Troed y Rhiw ac ar gael yn Cofnodion Gorffennaf 21, Eitem 11.a.
Cafwyd gwybod (23/10/2026) mae Merfyn Morris o Gefnffyrdd wedi trefnu ymweld safle Troed y Rhiw ar 2/11/2026 am 11.00yb. Mae Emlyn a Gareth wedi cael gwybod.
Cafwyd cyfarfod ar y gyffordd wrth Troed y Rhiw, Rhydymain ar 2/11/2026 yn trafod peryglon y gyffordd. Yn bresennol oedd Delyth, Emlyn, Henry a Llio (Rheolwr Arran Hall) a tri swyddog (yn cynnwys Mr Merfyn Morris) o Adran Cefnffyrdd.
Disgwylir adroddiad gan y swyddogion.
Bydd Delyth yn cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn ag ardal Bryn Blew, Llanfachreth.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/9/2026) oddi wrth Breese Gwyndaf i Robin a Henry yn rhoi gwybod maent wedi darparu cyngor ar fridiant (charge) cyfreithiol ar gyfer Neuadd Llanfachraeth. Mae angen i ni roi sylw i un mater cyn ymrwymo i'r cytundeb, sef mi ddylai ymddiriedolwyr (trustees) y neuadd roi indemniad (indemnity) i ni pe byddai cyfamodau'r pridiant yn cael eu torri.
Mi fydd yn cysylltu ag Ymddiriedolwyr y Neuadd i gael gwybod os byddent yn cytuno i'r indemniad.
Fel arall, byddant yn ddiolchgar i ni fedru cadarnhau ein bod yn hapus efo'r weithred ac i Robin a Henry ffonio eu swyddfa er mwyn i ni drefnu cyfarfod rhithiol i drafod y ddogfen cyn i ni ei harwyddo.
Amgáu gyda'r llythyr mae dogfen 'Adroddiad ar ddrafft o'r Legal Charge ar Neuadd Llanfachreth'.
Anfonwyd y llythyr (22/9/2026) a'r ddogfen i Gerallt.

b. Llythyrau (25/10/2026 a 26/10/2026) oddi wrth SP Energy Networks yn rhoi gwybod beth maent yn ei wneud yn ystod Storm Boelo.

Anfonwyd y ddau lythyr i'r aelodau.

c. Llythyr 27/10/2026) oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn amgáu Agenda at Cyfarfod Ardal Ni Dolgellau bydd yn cael ei gynnal ar 12/11/2026 am 6:00yh yn Coleg Meirion-Dwyfor, Dolgellau. Cyn y cyfarfod bydd copi o ddrafftiau cynlluniau'r ardal yn cael ei anfon i ni. Maent angen gwybod pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod erbyn 5/12/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (9/11/2026) oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn cynnwys drafft o'r cynllun ardal at y cyfarfod.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Mae Delyth am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

ch. Llythyr (30/10/2026) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Brithdir a Llanfachreth ar 9-13/11/2026.

d. Llythyr (2/11/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu Cod Ymddygiad: aelodau a swyddogion.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (4/11/2026) oddi wrth Coed Cadw yn rhoi gwybod mae eu cyfarfod yn Neuadd Pentref Llanfachreth ar 4/11/2026 ac yn Theatr Dolgellau ar 5/11/2026 wedi eu gohirio.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (11/11/2026) oddi wrth Coed Cadw yn rhoi gwybod maent yn paratoi prynu Nannau ac am gwblhau'r gwaith cyn y Nadolig. Maent wedi trefnu dau sesiwn lleol ar 4/11/2026 a 5/11/2026 (gweler uchod). Bydd hyn yn gam cyntaf mewn proses hir ymgynghori ac yn rhoi cyfle i bobl leol ddysgu mwy amdani. Maent wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda phobl allweddol ar yr ystâd (staff a thenantiaid), a bydd cyfathrebiadau cyhoeddus yn digwydd yn y gymuned leol. Maent yn sicrhau bydd tir Nannau yn parhau i fod gyda ffermio a bywoliaeth leol. Maent yn gwerthfawrogi'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol unigryw ac etifeddiaeth ddiwylliannol Nannau ac maent eisiau ei diogelu i genedlaethau'r dyfodol. Mae llawer iddynt ei ddysgu am y lle arbennig hwn ac rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda phobl leol i wybod mwy ac i lunio pennod nesaf stori Nannau gyda'n gilydd. Maent am weithio gyda'r Cyngor Cymuned dros y blynyddoedd nesaf.

Cafwyd gwybod (11/11/2026) gan Delyth mi fydd yn cyfarfod heddiw y Prif weithredwr ac mae cyfarfod yn Llanfachreth am 7:00yh ar 11/11/2026. Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (5/11/2026) oddi wrth Un Llais Cymru gyda gwybodaeth sut i gefnogi pobl gyda chartrefi oer a bilia'n codi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (6/11/2026) oddi wrth Un llais Cymru yn cynnwys Newyddion o Un Llais Cymru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (6/11/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfennau ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar adolygiadau ffiniau cymunedau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (11/11/2026) oddi wrth Kim Richards sy'n wyres i ddisgynnydd Plas Nannau. Mae hi angen fwy o wybodaeth ac am ymweld. Mae ganddi lawer o gefnderoedd sydd gyda diddordeb. Mae hi angen arweiniad at bwy i gysylltu.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau am wybodaeth i ateb y llythyr.

h. Llythyr (12/11/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyghoriad ar Polisi Arfaethedig 'Gosod Llinellau Trydan o Dan y Ddaear yn Gyntaf' ar gyfer cykchedau llinellau trydan newydd 11kV i 132kV. Maent angen sylwadau erbyn 16/12/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/404A. Dymchwel dau estyniad presennol a chodi estyniad newydd. Neuadd Bentref, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais oherwydd mae'r adeilad yn neuadd gymdeithasol ac yn bwysig i bentref Rhydymain ac i'r gymuned. Bydd y gwellianu i'r adeilad yn gwella hygyrchedd y neuadd a chyfleusterau y gegin a thoiledau

8. Materion Ariannol

a. Derbyniwyd (2/10/2026) £25.00 oddi wrth Rondio Media Cyf. Mae'r swm yn rhodd gan Cyng Wyn Rowlands. Gweler Cofnodion Medi 15, 2026, Eitem 8.d.

Gwnaethpwyd ymholiad gydag Un Llais Cymru i gael gwybod os mae'n gywir i'r Cyngor Cymuned derbyn rhodd ariannol. Derbyniwyd ateb ganddynt (12/11/2026) yn rhoi gwybod mae'n iawn i'r Cyngor dderbyn rhoddion, yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b.. Balans yn y banc ar 29/10/2026: £12,263.05.

9. Archwilio

a. Llythyr (27/10/2026) oddi wrth Archwilio Cymru yn cynnwys eu hadroddiad ynglŷn â chwblhau archwiliad flwyddyn 2025-2026.

Yn amgáu gyda'r llythyr roedd hysbysiad yn rhoi gwybod i'r etholwyr yr hawl sydd ganddynt i archwilio'r Ffurflen Flynyddol. Rhoddwyd yr hysbysiad ar ein gwefan a byrddau hysbysiad ar Hydref 30 am gyfnod o 14 diwrnod.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Ni chafwyd ymoliadau gan yr archwiliw am fwy o wybodaeth nac am eglurhad ar ddogfennau anfonwyd iddynt.

10. Materion yr Aelodau

11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

b. Y 'railings' cofeb Llanfachreth. Y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am y cynnal a chadw?

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc